

RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) Building Safety (Wales) Bill

Mae’r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag ‘R’ yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno’r gwelliant.

Amendments marked ‘R’ mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Bill will be considered in the following order –

Section 2	Adran 2
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 3 – 75	Adrannau 3 – 75
Section 1	Adran 1
Sections 76 – 107	Adrannau 76 – 107
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 108 – 128	Adrannau 108 – 128
Schedule 3	Atodlen 3
Schedule 4	Atodlen 4
Sections 129 – 130	Adrannau 129 – 130
Long title	Teitl hir

Jayne Bryant

10

Section 4, page 3, line 31, leave out –

‘contains none of the following –

- (a) a residential unit or part of a residential unit;

(b) ‘

and insert –

‘meets both of the following conditions –

- (a) it does not contain a residential unit or part of a residential unit;
- (b) it does not contain’.

Adran 4, tudalen 3, llinell 30, hepgorer –

‘nad yw’n cynnwys unrhyw un neu ragor o’r hyn a ganlyn –

- (a) uned breswyl neu ran o uned breswyl;
- (b) ardal, neu ran’

a mewnosoder –

‘yw’n bodloni’r ddau amod a ganlyn –

- (a) nid yw’n cynnwys uned breswyl na rhan o uned breswyl;
- (b) nid yw’n cynnwys ardal, na rhan’.

Jayne Bryant

11

Section 6, page 5, after line 24, insert –

‘() For the purposes of this section –

- (a) a mezzanine floor is to be regarded as a storey if its internal floor area is at least half of the internal floor area of the largest storey in the building that is not below ground level;
- (b) a storey is below ground level if the whole of the finished surface of the ceiling of the storey is below ground level;
- (c) “ground level” means –
 - (i) where the level of the surface of the ground on which the building is situated is uniform, the level of the surface of the ground immediately adjacent to the building;
 - (ii) where the level of the surface of the ground on which the building is situated is not uniform, the level of the lowest part of the surface of the ground immediately adjacent to the building.’.

Adran 6, tudalen 5, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

‘() At ddibenion yr adran hon –

- (a) mae llawr mesanîn i’w ystyried fel llawr os yw ei arwynebedd llawr mewnol yn o leiaf hanner arwynebedd llawr mewnol y llawr mwyaf yn yr adeilad nad yw o dan lefel y ddaear;
- (b) mae llawr o dan lefel y ddaear os yw’r cyfan o arwyneb gorffenedig nenfwd y llawr o dan lefel y ddaear;
- (c) ystyr “lefel y ddaear” yw –
 - (i) pan fo lefel arwyneb y ddaear y lleolir yr adeilad arno yn unffurf, lefel arwyneb y ddaear yn union gyfagos i’r adeilad;

- (ii) pan nad yw lefel arwyneb y ddaear y lleolir yr adeilad arno yn unffurf, lefel y rhan isaf o arwyneb y ddaear yn union gyfagos i'r adeilad.'

Jayne Bryant

12

Section 6, page 5, leave out line 31.

Adran 6, tudalen 5, hepgorer llinell 33.

Jayne Bryant

13

Section 17, page 11, after line 18, insert –

- '() amend the meaning of "storey";'.

Adran 17, tudalen 11, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

- '() diwygio ystyr "llawr";'.

Jayne Bryant

14

Section 17, page 11, line 25, leave out 'building safety authority' and insert 'county council and county borough council in Wales'.

Adran 17, tudalen 11, llinell 25, hepgorer 'awdurdod diogelwch adeiladau' a mewnosoder 'cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru'.

Rhys ab Owen

54

Section 28, page 18, line 23, leave out 'Act' and insert 'Part'.

Adran 28, tudalen 18, llinell 27, hepgorer 'Ddeddf' a mewnosoder 'Rhan'.

Jayne Bryant

15

Section 28, page 19, line 20, leave out 'building safety authority' and insert 'county council and county borough council in Wales'.

Adran 28, tudalen 19, llinell 22, hepgorer 'awdurdod diogelwch adeiladau' a mewnosoder 'cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru'.

WITHDRAWN / TYNNWYD YN ÔL

Joel James

2

Section 31, page 20, after line 31, insert –

- '() Subsection (1) does not apply to a regulated building that meets the criteria in subsection ([third subsection to be inserted by this amendment]).
- () The first fire risk assessment for such a building must be made no later than 12 months after the later of the following –

- (a) the day on which the building becomes occupied;
 - (b) the day on which this section comes into force.
- () A regulated building meets the criteria in this subsection if –
- (a) the building is a category 3 building,
 - (b) the building consists entirely of –
 - (i) residential units with means of egress that meet the criteria in subsection ([*fourth subsection to be inserted by this amendment*]), or
 - (ii) residential units with means of egress that meet the criteria in subsection ([*fourth subsection to be inserted by this amendment*]) and areas to which residents have no access, and
 - (c) there are no other premises wholly or partly above or below the building.
- () A residential unit's means of egress meets the criteria in this subsection if –
- (a) it is a means of egress from the residential unit to ground outside the building, and
 - (b) no part of it is shared with any other residential unit.
- () If a residential unit has more than one means of egress they must each meet the criteria in subsection ([*fourth subsection to be inserted by this amendment*]).
- () Section 7 (inclusion of ancillary areas in references to regulated buildings) does not apply to the references to the building in subsections ([*third subsection to be inserted by this amendment*])(b) and ([*fourth subsection to be inserted by this amendment*])(a).'

Adran 31, tudalen 20, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- '() Nid yw is-adran (1) yn gymwys i adeilad rheoleiddiedig sy'n bodloni'r meini prawf yn is-adran ([*trydydd is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]).
- () Rhaid gwneud yr asesiad risg tân cyntaf ar gyfer adeilad o'r fath heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl y diweddaraf o'r hyn a ganlyn –
- (a) y diwrnod y caiff yr adeilad ei feddiannu;
 - (b) y diwrnod y daw'r adran hon i rym.
- () Mae adeilad rheoleiddiedig yn bodloni'r meini prawf yn yr is-adran hon os –
- (a) yw'r adeilad yn adeilad categori 3,
 - (b) yw'r adeilad wedi ei ffurfio'n gyfan gwbl o –
 - (i) unedau preswyl a chanddynt ffordd allan sy'n bodloni'r meini prawf yn is-adran ([*pedwerydd is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]), neu
 - (ii) unedau preswyl a chanddynt ffordd allan sy'n bodloni'r meini prawf yn is-adran ([*pedwerydd is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) ac ardaloedd nad oes gan breswylwyr fynediad iddynt, ac
 - (c) nad oes unrhyw fangre arall yn gyfan gwbl neu'n rhannol uwch ben neu o dan yr adeilad.
- () Mae ffordd allan uned breswyl yn bodloni'r meini prawf yn yr is-adran hon os –
- (a) yw'n ffordd allan o'r uned breswyl i ddaear y tu allan i'r adeilad, a
 - (b) nad oes unrhyw ran ohoni yn cael ei rhannu ag unrhyw uned breswyl arall.
- () Os oes gan uned breswyl fwy nag un ffordd allan, rhaid i bob un ohonynt fodloni'r meini prawf yn is-adran ([*pedwerydd is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]).



- () Nid yw adran 7 (cynnwys ardaloedd atodol mewn cyfeiriadau at adeiladau rheoleiddiedig) yn gymwys i'r cyfeiriadau at yr adeilad yn is-adrannau (*[trydydd is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn]*)(b) a (*[pedwerydd is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn]*)(a).'

Joel James

47

Section 31, page 20, after line 31, insert –

- '() The Welsh Ministers may by regulations amend this section to vary the period for making the first fire risk assessment for a regulated building.'

Adran 31, tudalen 20, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- '() Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r adran hon i amrywio'r cyfnod ar gyfer gwneud yr asesiad risg tân cyntaf ar gyfer adeilad rheoleiddiedig.'

[Confers power to amend the period for a first fire risk assessment in section 31.]

[Yn rhoi pŵer i ddiwygio'r cyfnod ar gyfer asesiad risg tân cyntaf yn adran 31.]

WITHDRAWN / TYNNWYD YN ÔL

Joel James

3

Section 31, page 20, line 32, after 'made', insert 'for each regulated building'.

Adran 31, tudalen 20, llinell 33, ar ôl 'pellach', mewnosoder 'ar gyfer pob adeilad rheoleiddiedig'.

Jayne Bryant

16

Section 32, page 21, line 35, leave out 'building safety authority' and insert 'county council and county borough council in Wales'.

Adran 32, tudalen 21, llinell 35, hepgorer 'awdurdod diogelwch adeiladau' a mewnosoder 'cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru'.

Jayne Bryant

17

Section 32, page 22, line 1, leave out subsections (4) to (5).

Adran 32, tudalen 22, llinell 1, hepgorer is-adrannau (4) i (5).

Jayne Bryant

18

Section 33, page 23, line 8, leave out 'building safety authority' and insert 'county council and county borough council in Wales'.

Adran 33, tudalen 23, llinell 8, hepgorer 'awdurdod diogelwch adeiladau' a mewnosoder 'cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru'.

Jayne Bryant

19

Section 34, page 24, line 16, leave out 'building safety authority' and insert 'county council and county borough council in Wales'.

Adran 34, tudalen 24, llinell 17, hepgorer 'awdurdod diogelwch adeiladau' a mewnosoder 'cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru'.

Jayne Bryant

20

Section 35, page 25, line 8, leave out 'building safety authority' and insert 'county council and county borough council in Wales'.

Adran 35, tudalen 25, llinell 8, hepgorer 'awdurdod diogelwch adeiladau' a mewnosoder 'cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru'.

Joel James

4

Page 33, after line 31, insert a new section –

'CHAPTER []

ENGAGEMENT WITH RESIDENTS OF OCCUPIED CATEGORY 2 BUILDINGS

[] Category 2 buildings: residents' engagement strategies

- (1) The Welsh Ministers may by regulations make provision in relation to category 2 buildings corresponding or similar to any provision that is made by section 40 or 41 (residents' engagement strategies), or that could be made by regulations under those sections, in relation to category 1 buildings.
- (2) The regulations may make consequential amendments to any enactment (including this Act).'

Tudalen 33, ar ôl llinell 31, mewnosoder adran newydd –

'PENNOD []

YMGYSYLLTU Â PHRESWYLWYR ADEILADAU CATEGORI 2 A FEDDIENNIR

[] Adeiladau categori 2: strategaethau ymgysylltu â phreswylwyr

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth mewn perthynas ag adeiladau categori 2 sy'n cyfateb neu'n debyg i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan adran 40 neu 41 (strategaethau ymgysylltu â phreswylwyr), neu y gellid ei gwneud drwy reoliadau o dan yr adrannau hynny, mewn perthynas ag adeiladau categori 1.
- (2) Caiff y rheoliadau wneud diwygiadau canlyniadol i unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys y Ddeddf hon).'

Sian Gwenllian

52

Section 48, page 35, line 15, leave out 'may by regulations' and insert –

'must by regulations make provision about the sharing of relevant information and relevant documents by accountable persons.

() The regulations may'.

Adran 48, tudalen 35, llinell 15, hepgorer 'Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau,' a mewnosoder –

'Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth berthnasol a dogfennau perthnasol gan bersonau atebol.

() Caiff y rheoliadau'.

Jayne Bryant

21

Section 69, page 55, line 17, leave out ' –

- (a) to allow any of the following persons to enter the premises for a relevant building safety purpose –
 - (i) a relevant person;
 - (ii) an accountable person for the building;
 - (iii) a person authorised in writing by a relevant person or by an accountable person;
- (b) where the tenant is a resident of the building, to comply with their duties under sections 53 to 57 of the Building Safety (Wales) Act 2026'

and insert –

'to comply with –

- (a) any repairs access order made in respect of the tenant under section 56 of the Building Safety (Wales) Act 2026;
- (b) any access order made in respect of the tenant under section 57 of that Act;
- (c) any contravention order made in respect of the tenant under section 60 of that Act;
- (d) any compliance notice given to the tenant under section 94 of that Act'.

Adran 69, tudalen 55, llinell 17, hepgorer ' –

- (a) to allow any of the following persons to enter the premises for a relevant building safety purpose –
 - (i) a relevant person;
 - (ii) an accountable person for the building;
 - (iii) a person authorised in writing by a relevant person or by an accountable person;
- (b) where the tenant is a resident of the building, to comply with their duties under sections 53 to 57 of the Building Safety (Wales) Act 2026'

a mewnosoder –

‘to comply with—

- (a) any repairs access order made in respect of the tenant under section 56 of the Building Safety (Wales) Act 2026;
- (b) any access order made in respect of the tenant under section 57 of that Act;
- (c) any contravention order made in respect of the tenant under section 60 of that Act;
- (d) any compliance notice given to the tenant under section 94 of that Act’.

Jayne Bryant

22

Section 69, page 55, line 38, leave out—

- ‘(5) In the covenant implied by subsection (3)(a), a “relevant building safety purpose” means—
 - (a) inspecting the premises in connection with an accountable person complying with their building safety duties;
 - (b) carrying out works to the premises, where such works are required to be carried out in connection with an accountable person complying with their building safety duties;
 - (c) accessing a part of the building that is not let to the tenant in order to—
 - (i) inspect that part of the building in connection with an accountable person complying with their building safety duties;
 - (ii) carry out works to that part of the building, where such works are required to be carried out in connection with an accountable person complying with their building safety duties.
- (6) The covenant implied by subsection (3)(a) requires entry to the premises to be allowed—
 - (a) only at reasonable times, and
 - (b) only if the tenant has been given at least 48 hours’ notice in writing.’.

Adran 69, tudalen 55, llinell 38, hepgorer—

- ‘(5) In the covenant implied by subsection (3)(a), a “relevant building safety purpose” means—
 - (a) inspecting the premises in connection with an accountable person complying with their building safety duties;
 - (b) carrying out works to the premises, where such works are required to be carried out in connection with an accountable person complying with their building safety duties;
 - (c) accessing a part of the building that is not let to the tenant in order to—

- (i) inspect that part of the building in connection with an accountable person complying with their building safety duties;
 - (ii) carry out works to that part of the building, where such works are required to be carried out in connection with an accountable person complying with their building safety duties.
- (6) The covenant implied by subsection (3)(a) requires entry to the premises to be allowed –
- (a) only at reasonable times, and
 - (b) only if the tenant has been given at least 48 hours' notice in writing.'

Jayne Bryant

23

Section 69, page 56, line 35, leave out –

‘;

“works” includes alterations, improvements and installations’.

Adran 69, tudalen 56, llinell 35, hepgorer –

‘;

“works” includes alterations, improvements and installations’.

Jayne Bryant

24

Page 68, after line 34, insert a new section –

‘Occupation contracts

[] Power to make provision relating to terms of occupation contracts

- (1) The Welsh Ministers may by regulations amend the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1) to –
- (a) include a fundamental provision applicable to all occupation contracts, or to particular kinds or descriptions of occupation contract, for the purpose of enabling a landlord or contract-holder to comply with a provision of this Act or regulations made under it;
 - (b) provide that a provision of this Act or regulations made under it is a fundamental provision applicable to all occupation contracts, or to particular kinds or descriptions of occupation contract;
 - (c) make provision about –
 - (i) the incorporation, or incorporation with modifications, of a fundamental provision mentioned in paragraph (a) or (b) as a fundamental term of an occupation contract;
 - (ii) the variation of such a fundamental term.
- (2) The regulations may also –

- (a) amend section 30IA of the Landlord and Tenant Act 1985 (c. 70) (inserted by section 69 of this Act) to provide that it does not apply to any occupation contract, or to particular kinds or descriptions of occupation contract;
 - (b) make consequential amendments to any enactment (including this Act).
- (3) Expressions used in this section that are also used in the Renting Homes (Wales) Act 2016 have the same meanings in this section as they have in that Act.'

Tudalen 68, ar ôl llinell 34, mewnosoder adran newydd –

'Contractau meddiannaeth

[] Pŵer i wneud darpariaeth sy'n ymwneud â thelerau contractau meddiannaeth

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) i—
- (a) cynnwys darpariaeth sylfaenol sy'n gymwys i bob contract meddiannaeth, neu i fathau neu ddisgrifiadau penodol o gontract meddiannaeth, at y diben o alluogi landlord neu ddeiliad contract i gydymffurfio â darpariaeth yn y Ddeddf hon neu reoliadau a wneir oddi tani;
 - (b) darparu bod darpariaeth o'r Ddeddf hon neu reoliadau a wneir oddi tani yn ddarpariaeth sylfaenol sy'n gymwys i bob contract meddiannaeth, neu i fathau neu ddisgrifiadau penodol o gontract meddiannaeth;
 - (c) gwneud darpariaeth ynghylch—
 - (i) ymgorffori, neu ymgorffori gydag addasiadau, ddarpariaeth sylfaenol a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b) fel teler sylfaenol contract meddiannaeth;
 - (ii) amrywio teler sylfaenol o'r fath.
- (2) Caiff y rheoliadau hefyd—
- (a) diwygio adran 30IA o Ddeddf Landlord a Tenant 1985 (p. 70) (a fewnosodir gan adran 69 o'r Ddeddf hon) i ddarparu nad yw'n gymwys i unrhyw gontract meddiannaeth, neu i fathau neu ddisgrifiadau penodol o gontract meddiannaeth;
 - (b) gwneud diwygiadau canlyniadol i unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys y Ddeddf hon).
- (3) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn yr adran hon a ddefnyddir hefyd yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yr un ystyron yn yr adran hon ag sydd iddynt yn y Ddeddf honno.'

Jayne Bryant

25

Section 75, page 70, line 6, leave out 'or 28(2)' and insert ', 28(2) or [section to be inserted by amendment 24]'

Adran 75, tudalen 70, llinell 6, hepgorer 'neu 28(2)' a mewnosoder ', 28(2) neu [adran i'w mewnosod gan welliant 24]'

Jayne Bryant

26

Section 75, page 70, line 21, leave out 'or 28(2)' and insert ', 28(2) or [section to be inserted by amendment 24]'

Adran 75, tudalen 70, llinell 21, hepgorer 'neu 28(2)' a mewnosoder ', 28(2) neu [adran i'w mewnosod gan welliant 24]'.

Joel James

1

Section 1, page 2, after line 6, insert –

'() Chapter [Chapter to be inserted by amendment 4] enables the Welsh Ministers to make provision about strategies for involving residents of occupied category 2 buildings in building safety decisions.'

Adran 1, tudalen 2, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

'() Mae Pennod [Pennod i'w mewnosod gan welliant 4] yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am strategaethau ar gyfer cynnwys preswylwyr adeiladau categori 2 a feddiennir mewn penderfyniadau diogelwch adeiladau.'

Jayne Bryant

8

Section 1, page 2, line 12, leave out –

'places duties relating to structural safety on those persons if the building is a category 1 building or a category 2 building. It provides for enforcement of the duties, and access to residential units, by accountable persons'

and insert –

'imposes corresponding duties relating to structural safety in category 1 buildings and category 2 buildings, and duties to repair damage to the fire resistance of residential units in all occupied regulated buildings. It provides for enforcement of the duties by accountable persons, and for access to residential units to enable compliance with this Part'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 15, hepgorer –

'sy'n ymwneud â diogelwch strwythurol ar y personau hynny os yw'r adeilad yn adeilad categori 1 neu'n adeilad categori 2. Mae'n darparu ar gyfer gorfodi'r dyletswyddau, a mynediad i unedau preswyl, gan bersonau atebol'

a mewnosoder –

'cyfatebol sy'n ymwneud â diogelwch strwythurol mewn adeiladau categori 1 ac adeiladau categori 2, a dyletswyddau i atgyweirio difrod i wrthiant tân unedau preswyl ym mhob adeilad rheoleiddiedig a feddiennir. Mae'n darparu ar gyfer gorfodi'r dyletswyddau gan bersonau atebol, ac ar gyfer mynediad i unedau preswyl er mwyn galluogi cydymffurfiaeth â'r Rhan hon'.

Jayne Bryant

9

Section 1, page 2, line 18, after 'persons,' at the second place where it appears, insert 'provision about the recovery of costs incurred or to be incurred in complying with this Part,'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 21, ar ôl 'eraill', mewnosoder 'darpariaeth ynghylch adennill costau yr aed iddynt neu yr eir iddynt wrth gydymffurfio â'r Rhan hon,'.

Jayne Bryant

27

Section 94, page 85, after line 32, insert –

- '() any other county council or county borough council in Wales in whose area any part of the building is situated;'

Adran 94, tudalen 85, ar ôl llinell 34, mewnosoder –

- '() unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol arall yng Nghymru y mae unrhyw ran o'r adeilad wedi ei lleoli yn ei ardal;'

Jayne Bryant

28

Section 94, page 86, line 3, after 'building' at the second place where it appears, insert 'and any other county council or county borough council in Wales in whose area any part of the building is situated'.

Adran 94, tudalen 86, llinell 4, ar ôl 'adeilad', mewnosoder 'ac unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol arall yng Nghymru y mae unrhyw ran o'r adeilad wedi ei lleoli yn ei ardal'.

Jayne Bryant

29

Section 96, page 88, line 12, after 'building' at the second place where it appears, insert 'and any other county council or county borough council in Wales in whose area any part of the building is situated'.

Adran 96, tudalen 88, llinell 15, ar ôl 'adeilad', mewnosoder 'ac unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol arall yng Nghymru y mae unrhyw ran o'r adeilad wedi ei lleoli yn ei ardal'.

Rhys ab Owen

55

Section 105, page 93, line 32, after 'risk' at the second place where it appears, insert '(within the meaning given by section 28)'.

Adran 105, tudalen 93, llinell 34, ar ôl 'adeilad', mewnosoder '(o fewn yr ystyr a roddir gan adran 28)'.

Jayne Bryant

39

Schedule 2, page 126, after line 26, insert –

- '() any county council or county borough council in Wales, other than the building safety authority for the building, in whose area any part of the building is situated;'

Atodlen 2, tudalen 126, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

- '() unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, heblaw am yr awdurdod diogelwch adeiladau, y mae unrhyw ran o'r adeilad wedi ei lleoli yn ei ardal;'

Rhys ab Owen

56

Gyda chefnogaeth / Supported by: Sian Gwenllian

Page 98, after line 21, insert a new section –

'PART []

REMEDICATION OF CERTAIN DEFECTS

[] Meaning of “relevant building”

- (1) In this Part, “relevant building” means a category 1 building or a category 2 building, but does not include –
- (a) anything that is included in a reference to such a building by virtue of section 7 (ancillary areas);
 - (b) any building –
 - (i) in relation to which a right under Part 1 of the Landlord and Tenant Act 1987 (c. 31) (tenants’ right of first refusal) or Part 3 of that Act (compulsory acquisition by tenants of landlord’s interest) has been exercised;
 - (ii) in relation to which the right to collective enfranchisement under Chapter 1 of Part 1 of the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993 (c. 28) has been exercised;
 - (iii) that is on commonhold land (within the meaning given by section 1 of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002 (c. 15)).
- (2) The Welsh Ministers may by regulations provide that a category 1 building or a category 2 building is not a relevant building if the freehold estate in the building is leaseholder owned (within the meaning given by the regulations).’.

Tudalen 98, ar ôl llinell 22, mewnosoder adran newydd –

'RHAN []

CYWEIRIO DIFFYGIION PENODOL

[] Ystyr “adeilad perthnasol”

- (1) Yn y Rhan hon, ystyr “adeilad perthnasol” yw adeilad categori 1 neu adeilad categori 2, ond nid yw’n cynnwys –
- (a) unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys mewn cyfeiriad at adeilad o’r fath yn rhinwedd adran 7 (ardaloedd atodol);
 - (b) unrhyw adeilad –
 - (i) y mae hawl o dan Ran 1 o Ddeddf Landlord a Tenant 1987 (p. 31) (hawl tenantiaid i gael y cynnig cyntaf) neu Ran 3 o’r Ddeddf honno (caffael gorfodol gan denantiaid o fuddiant landlord) wedi ei arfer mewn perthynas ag ef;
 - (ii) y mae’r hawl i ryddfrenio ar y cyd o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p. 28) wedi ei arfer mewn perthynas ag ef;

- (iii) sydd ar dir cyfunddaliad (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 1 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p. 15)).
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu nad yw adeilad categori 1 neu adeilad categori 2 yn adeilad perthnasol os yw lesddeiliad yn berchen ar yr ystad rydd-ddaliadol yn yr adeilad (o fewn yr ystyr a roddir gan y rheoliadau).'

Rhys ab Owen

57

Gyda chefnogaeth / Supported by: Sian Gwenllian

Page 98, after line 21, insert a new section –

[] Meaning of “relevant defect”

- (1) In this Part –

“relevant defect” (“*diffyg perthnasol*”), in relation to a relevant building, means a defect as regards the building that –

- (a) arises as a result of anything done or not done (including anything done or not done in the provision of professional services), or anything used or not used, in connection with relevant works, and
- (b) creates a building safety risk or significantly increases an existing building safety risk;

“relevant step” (“*cam perthnasol*”), in relation to a relevant defect, means a step that has as its purpose –

- (a) preventing or reducing the likelihood of a fire or collapse of the building (or any part of it) occurring as a result of the relevant defect,
- (b) reducing the severity of any such incident, or
- (c) preventing or reducing harm to people in or about the building that could result from such an incident.

- (2) In this section –

“building safety risk” (“*risg diogelwch adeilad*”) means a risk to the safety of people in or about the building arising from –

- (a) the spread of fire, or
- (b) the collapse of the building or any part of it;

“conversion” (“*trosi*”) means the conversion of the building for use (wholly or partly) for residential purposes;

“landlord or management company” (“*landlord neu gwmni rheoli*”) means a landlord under a lease of the building or any part of it, or any person who is a party to such a lease otherwise than as landlord or tenant;

“the relevant period” (“*y cyfnod perthnasol*”) means the period beginning with 28 June 1992 and ending with 20 February 2026;

“relevant works” (“*gwaith perthnasol*”) means any of the following –

- (a) works relating to the construction or conversion of the building, if the construction or conversion was completed in the relevant period;

- (b) works undertaken or commissioned by or on behalf of a landlord or management company, if the works were completed in the relevant period;
- (c) works undertaken after the end of the relevant period to remedy a relevant defect (including a defect that is a relevant defect by virtue of this paragraph).'

Tudalen 98, ar ôl llinell 22, mewnosoder adran newydd –

[] Ystyr “diffyg perthnasol”

(1) Yn y Rhan hon –

ystyr “cam perthnasol” (“*relevant step*”), mewn perthynas â diffyg perthnasol, yw cam â'i bwrpas yw –

- (a) atal neu leihau'r tebygolrwydd o dân rhag digwydd o ganlyniad i'r diffyg perthnasol neu o'r adeilad (neu unrhyw ran ohono) yn dymchwel o ganlyniad i ddiffyg o'r fath,
- (b) lleihau difrifoldeb unrhyw ddigwyddiad o'r fath, neu
- (c) atal neu leihau niwed i bobl yn yr adeilad neu o'i amgylch a allai ddeillio o ddigwyddiad o'r fath;

ystyr “diffyg perthnasol” (“*relevant defect*”), mewn perthynas ag adeilad perthnasol, yw diffyg o ran yr adeilad sydd –

- (a) yn codi o ganlyniad i unrhyw beth sydd wedi ei wneud neu heb ei wneud (gan gynnwys unrhyw beth sydd wedi ei wneud neu heb ei wneud wrth ddarparu gwasanaethau proffesiynol), neu unrhyw beth a ddefnyddiwyd neu nas defnyddiwyd, mewn cysylltiad â gwaith perthnasol, a
- (b) yn creu risg diogelwch adeilad neu'n cynyddu'n sylweddol risg diogelwch adeilad presennol.

(2) Yn yr adran hon –

ystyr “y cyfnod perthnasol” (“*the relevant period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau â 28 Mehefin 1992 ac sy'n dod i ben â 20 Chwefror 2026;

ystyr “gwaith perthnasol” (“*relevant works*”) yw unrhyw un neu ragor o'r hyn a ganlyn –

- (a) gwaith sy'n ymwneud ag adeiladu neu drosi'r adeilad, os cwblhawyd y gwaith adeiladu neu'r gwaith trosi yn y cyfnod perthnasol;
- (b) gwaith a ymgwymerwyd neu a gomisiynwyd gan neu ar ran landlord neu gwmni rheoli, os cwblhawyd y gwaith yn y cyfnod perthnasol;
- (c) gwaith a ymgwymerwyd ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol i unioni diffyg perthnasol (gan gynnwys diffyg sy'n ddiffyg perthnasol yn rhinwedd y paragraff hwn);

ystyr “landlord neu gwmni rheoli” (“*landlord or management company*”) yw landlord o dan les o'r adeilad neu unrhyw ran ohono, neu unrhyw berson sy'n barti i les o'r fath ac eithrio fel landlord neu denant;

ystyr “risg diogelwch adeilad” (“*building safety risk*”) yw risg i ddiogelwch pobl yn yr adeilad neu o'i amgylch sy'n deillio o –

- (a) lledaeniad tân, neu

- (b) yr adeilad, neu unrhyw ran ohono, yn dymchwel;
ystyr “trosi” (“conversion”) yw trosi’r adeilad i’w ddefnyddio (yn gyfan gwbl neu’n rhannol) at ddibenion preswyl.’.

Rhys ab Owen

58

Gyda chefnogaeth / Supported by: Sian Gwenllian

Page 98, after line 21, insert a new section –

[] Remediation orders

- (1) The Welsh Ministers must by regulations –
- (a) provide that a residential property tribunal may make a remediation order on the application of an interested person;
 - (b) make further provision in connection with remediation orders.
- (2) A remediation order is an order requiring a relevant landlord or management company to do one or both of the following by a specified time –
- (a) remedy specified relevant defects in a specified relevant building;
 - (b) take specified relevant steps in relation to a specified relevant defect in a specified relevant building.
- (3) In subsections (1) and (2) –
- “interested person” (“*person a chanddo fuddiant*”), in relation to a relevant building, means –
- (a) the building safety authority for the building;
 - (b) the fire safety authority for the building;
 - (c) a person with a legal or equitable interest in the building or any part of it;
 - (d) any other person specified, or of a description specified, in regulations made by the Welsh Ministers;
- “relevant landlord or management company” (“*landlord perthnasol neu gwmni rheoli perthnasol*”), in relation to a relevant defect in a relevant building, means a person who –
- (a) is a landlord under a lease of the building or any part of it, or a party to such a lease otherwise than as landlord or tenant, and
 - (b) is required, under the lease or by virtue of an enactment, to repair or maintain anything relating to the defect;
- “specified” (“*penodedig*”) means specified in the remediation order.
- (4) The Welsh Ministers must lay a draft of a Welsh statutory instrument containing regulations under subsection (1) before Senedd Cymru before the end of the period of 9 months beginning with the day on which this Act receives Royal Assent.’.

Tudalen 98, ar ôl llinell 22, mewnosoder adran newydd –

[] Gorchmynion cyweirio

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau –

- (a) darparu y caiff tribiwnlys eiddo preswyl wneud gorchymyn cyweirio ar gais person a chanddo fuddiant;
 - (b) gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â gorchymynion cyweirio.
- (2) Gorchymyn cyweirio yw gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlord perthnasol neu gwmni rheoli perthnasol wneud un neu'r ddau o'r hyn a ganlyn erbyn amser penodedig –
- (a) unioni diffygion perthnasol penodedig mewn adeilad perthnasol penodedig;
 - (b) cymryd camau perthnasol penodedig mewn perthynas â diffyg perthnasol penodedig mewn adeilad perthnasol penodedig.
- (3) Yn is-adrannau (1) a (2) –
- ystyr “landlord perthnasol neu gwmni rheoli perthnasol” (“*relevant landlord or management company*”), mewn perthynas â diffyg perthnasol mewn adeilad perthnasol, yw person –
- (a) sy'n landlord o dan les o'r adeilad neu unrhyw ran ohono, neu'n barti i les o'r fath ac eithrio fel landlord neu denant, a
 - (b) y mae'n ofynnol iddo, o dan y les neu yn rhinwedd deddfiad, atgyweirio neu gynnal a chadw unrhyw beth sy'n ymwneud â'r diffyg;
- ystyr “penodedig” (“*specified*”) yw wedi ei bennu yn y gorchymyn cyweirio;
- ystyr “person a chanddo fuddiant” (“*interested person*”), mewn perthynas ag adeilad perthnasol, yw –
- (a) yr awdurdod diogelwch adeiladau ar gyfer yr adeilad;
 - (b) yr awdurdod diogelwch tân ar gyfer yr adeilad;
 - (c) person a chanddo fuddiant cyfreithiol neu ecwitiol yn yr adeilad neu unrhyw ran ohono;
 - (d) unrhyw berson arall a bennir, neu o ddisgrifiad a bennir, mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymreig sy'n cynnwys rheoliadau o dan is-adran (1) gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 9 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.'

Rhys ab Owen

59

Gyda chefnogaeth / Supported by: Sian Gwenllian

Page 98, after line 21, insert a new section –

[] Remediation contribution orders

- (1) The Welsh Ministers must by regulations –
 - (a) provide that a residential property tribunal may make a remediation contribution order on the application of an interested person;
 - (b) make further provision in connection with remediation contribution orders.
- (2) A remediation contribution order is an order requiring a relevant body corporate or partnership to make payments to a specified person for the purpose of meeting costs incurred or to be incurred in remedying, or otherwise in connection with, relevant defects (or specified relevant defects) relating to a relevant building (“remediation costs”).

- (3) Regulations under subsection (1) may provide for remediation contribution orders to require the making of payments –
- (a) of specified amounts or in relation to specified things, or both;
 - (b) at specified times or on demand following specified events, or both.
- (4) In subsections (2) and (3) “specified” means specified in the remediation contribution order.
- (5) In this section –
- “developer” (*“datblygwr”*), in relation to a relevant building, means a person who undertook or commissioned the construction or conversion of the building (or part of the building) with a view to granting or disposing of interests in the building or parts of it;
- “interested person” (*“person a chanddo fuddiant”*), in relation to a relevant building, means –
- (a) the Welsh Ministers;
 - (b) the building safety authority for the building;
 - (c) the fire safety authority for the building;
 - (d) a person with a legal or equitable interest in the building or any part of it;
 - (e) any other person specified, or of a description specified, in regulations made by the Welsh Ministers;
- “partnership” (*“partneriaeth”*) means –
- (a) a partnership within the meaning of the Partnership Act 1890, or
 - (b) a limited partnership registered under the Limited Partnerships Act 1907,
- or a firm or entity of a similar character formed under the law of a country or territory outside the United Kingdom;
- “relevant body corporate or partnership” (*“corff corfforedig perthnasol neu bartneriaeth berthnasol”*) means a body corporate or partnership that is –
- (a) a landlord under a lease of the relevant building or any part of it,
 - (b) a person who was such a landlord at the beginning of 20 February 2026,
 - (c) a developer in relation to the relevant building, or
 - (d) a person associated with a person within any of paragraphs (a) to (c).
- (6) The Welsh Ministers may by regulations –
- (a) make provision about costs that are, or are not, to be regarded as remediation costs;
 - (b) make provision about the circumstances in which a partnership or body corporate is associated with another person;
 - (c) provide that this section applies, with or without modifications, in relation to a building that would, but for section [section to be inserted by amendment 56](1)(b) or (2), be a relevant building.
- (7) The Welsh Ministers must lay a draft of a Welsh statutory instrument containing regulations under subsection (1) before Senedd Cymru before the end of the period of 9 months beginning with the day on which this Act receives Royal Assent.’.

Tudalen 98, ar ôl llinell 22, mewnosoder adran newydd –

[1] **Gorchmynion cyfraniadau cyweirio**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau –
 - (a) darparu y caiff tribiwnlys eiddo preswyl wneud gorchmyn cyfraniadau cyweirio ar gais person a chanddo fuddiant;
 - (b) gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â gorchmynion cyfraniadau cyweirio.
- (2) Gorchmyn cyfraniadau cyweirio yw gorchmyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff corfforedig perthnasol neu bartneriaeth berthnasol wneud taliadau i berson penodedig at y diben o dalu costau yr aed iddynt neu yr eir iddynt wrth unioni diffygion perthnasol (neu ddiffygion perthnasol penodedig) sy'n ymwneud ag adeilad perthnasol, neu mewn cysylltiad â hynny fel arall (“costau cyweirio”).
- (3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddarparu i orchmynion cyfraniadau cyweirio ei gwneud yn ofynnol gwneud taliadau –
 - (a) o symiau penodedig neu mewn perthynas â phethau penodedig, neu'r ddau;
 - (b) ar adegau penodedig neu ar alw yn dilyn digwyddiadau penodedig, neu'r ddau.
- (4) Yn is-adrannau (2) a (3) ystyr “penodedig” yw wedi ei bennu yn y gorchmyn cyfraniadau cyweirio.
- (5) Yn yr adran hon –

ystyr “corff corfforedig perthnasol neu bartneriaeth berthnasol” (“*relevant body corporate or partnership*”) yw corff corfforedig neu bartneriaeth sydd –

- (a) yn landlord o dan les o'r adeilad perthnasol neu unrhyw ran ohono,
- (b) yn berson a oedd yn landlord o'r fath ar ddechrau 20 Chwefror 2026,
- (c) yn ddatblygwr mewn perthynas â'r adeilad perthnasol, neu
- (d) yn berson sy'n gysylltiedig â pherson o fewn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (c);

ystyr “datblygwr” (“*developer*”), mewn perthynas ag adeilad perthnasol, yw person a ymgymrodd neu a gomisiynodd waith adeiladu'r adeilad (neu ran o'r adeilad) neu waith trosi'r adeilad (neu ran o'r adeilad) gyda'r bwriad o roi neu waredu buddiannau yn yr adeilad neu rannau ohono;

ystyr “partneriaeth” (“*partnership*”) yw –

- (a) partneriaeth o fewn yr ystyr a roddir i “partnership” gan Ddeddf Partneriaeth 1890, neu
- (b) partneriaeth gyfyngedig a gofrestrwyd o dan Ddeddf Partneriaethau Cyfyngedig 1907,

neu ffyrm neu endid tebyg ei gymeriad a ffurfir o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig;

ystyr “person a chanddo fuddiant” (“*interested person*”), mewn perthynas ag adeilad perthnasol, yw –

- (a) Gweinidogion Cymru;
- (b) yr awdurdod diogelwch adeiladau ar gyfer yr adeilad;
